Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Uned Addysg Marlowe St David's

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  15/09/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Marlowe St David's yn ysgol annibynnol fechan i fechgyn a merched wyth i un ar bymtheg oed. Mae wedi'i lleoli mewn man gwledig yng ngogledd Sir Benfro.

Marlowe Child and Family Services Ltd sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 20 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Ar hyn o bryd, mae 12 disgybl ar gofrestr yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol ac mae tua hanner ohonynt yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae gan fwyafrif y disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ymunodd y pennaeth presennol â'r ysgol ym mis Hydref 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol
- Mae'r ysgol yn gweithredu llawer o bolisïau a chynlluniau priodol i fynd i'r afael ag argymhellion ymweliadau monitro blaenorol
- Mae cwricwlwm 'cymeriad' yr ysgol yn darparu fframwaith defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu chwilfrydedd, empathi, parch a gwydnwch emosiynol
- Mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn datblygu medrau addas i weithio'n annibynnol; yn gyffredinol, maent yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- Mae staff addysg a gofal bellach yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion

### Meysydd i'w datblygu

- Mae presenoldeb disgyblion yn rhy isel o hyd
- Megis dechrau datblygu y mae asesu anghenion disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol
- Megis dechrau datblygu y mae olrhain cynnydd disgyblion
- Yn gyffredinol, nid yw'r tir tu allan yn briodol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon
- Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, er nad yw'r ysgol wedi'i chofrestru ar hyn o bryd i dderbyn disgyblion ag awtistiaeth
- Er bod trefniadau priodol ar gyfer darparu gofod y tu allan i ddisgyblion chwarae'n ddiogel, mae'r rhain wedi'u tanddatblygu ar hyn o bryd

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 trwy fynd i'r afael â'r mater a nodwyd yn Safon 4

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau bod asesiadau gwaelodlin priodol ar gyfer pob disgybl a bod y rhain yn llywio cynlluniau addysg unigol

A4 Datblygu ymhellach system olrhain yr ysgol i fonitro a dangos y cynnydd a wna disgyblion yn glir

A5 Ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch derbyn disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig

A6 Ystyried gwella ansawdd tir yr ysgol fel y gall disgyblion fwynhau chwarae a hamdden

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cymryd camau priodol i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Fodd bynnag, mae bwlch pwysig mewn ychydig bach o agweddau ac, o ganlyniad, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r holl reoliadau.

**Argymhelliad 1: Mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd yn yr adroddiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers dechrau yn yr ysgol yn 2016, mae'r pennaeth wedi gweithio'n hynod galed i wella lles disgyblion a staff. O ganlyniad, mae'r ysgol bellach yn amgylchedd gweithio digynnwrf, ac mae'r staff yn rhannu'r un ethos ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar ddiogelu ac mae'n dilyn gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r holl staff yn cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu a thrin a thrafod yn gadarnhaol.

Mae'r pennaeth wedi diweddaru polisïau pwysig y mae staff yn eu darllen a'u llofnodi. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi diwygio'i pholisi gwrth-fwlio i adlewyrchu arweiniad Llywodraeth Cymru ac mae bellach yn cadw cofnod electronig o enghreifftiau o fwlio. Mae'r cofnod hwn yn dangos na fu unrhyw enghreifftiau o fwlio ers sefydlu'r system hon.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau defnyddiol i wella diogelwch disgyblion yn ardaloedd allanol yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys arwyddion i rybuddio cerbydau eu bod yng nghyffiniau'r ysgol a gwell diogelwch.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar waith ar gyfer trefnu gweithgareddau awyr agored. Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos gyda'r hyfforddwr addysg awyr agored i sicrhau bod asesiad risg llawn yn cael ei gynnal ar gyfer pob gweithgaredd oddi ar y safle a bod trefniadau'n cyrraedd y safon ofynnol.

Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir ar reoli ymddygiad yn well. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion unigol. O ganlyniad, mae disgyblion a staff bellach yn ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu.

Mae'r cyfathrebu rhwng staff addysg a staff gofal yn well. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi arwain ar bartneriaeth waith gadarnach rhwng y lleoliadau, gan gynnwys rhannu strategaethau ymddygiad yn well.

**Argymhelliad 2:  Sicrhau bod digon o staff â'r hyfforddiant perthnasol bob amser, er mwyn sicrhau bod staff a disgyblion yn ddiogel**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod nifer digonol o staff yn cael eu cyflogi yn yr ysgol.  Mae'r ysgol yn defnyddio staff yn effeithiol i sicrhau diogelwch disgyblion a staff.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant priodol ar reoli ymddygiad.  Maent yn deall ac yn cymhwyso egwyddorion tawelu.  O ganlyniad, mae'r perthnasoedd rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol a pharchus.

Mae gan yr ysgol systemau defnyddiol ar waith i sicrhau bod staff wedi'u briffio'n briodol ar anghenion disgyblion.

**Argymhelliad 3:  Gwella ymddygiad pob disgybl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae staff a disgyblion wedi cydweithio i ddatblygu polisi newydd ar reoli ymddygiad.  Mae gan y polisi hwn ffocws clir ar wobrau a chanlyniadau ac mae'n cynnwys amrywiaeth o strategaethau priodol.  Erbyn hyn, mae dull mwy cyson o reoli ymddygiad.  Mae staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth reoli ymddygiad heriol ac, o ganlyniad, mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen llythrennedd emosiynol sydd wedi'i hymgorffori ar draws yr ysgol.  Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo disgyblion i ddeall a rheoli eu llwyddiant emosiynol, cymdeithasol ac academaidd eu hunain.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o'u cyflwr emosiynol eu hunain ac eraill a sut i ymateb yn fwy priodol.

Mae'r ysgol yn cadw cofnod electronig manwl o bob digwyddiad a nodiadau manwl mewn ffeil.  Mae hyn yn cynnwys ymyrraeth gorfforol, bwlio, bygythiad i'w hun ac i eraill a difrod i eiddo.  Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi tueddiadau a rhoi strategaethau ar waith i helpu disgyblion i wella.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno templed diwygiedig ar gyfer cofnodi digwyddiadau atal corfforol.  Mae hyn yn fwy manwl ac addas o lawer na'r templedi blaenorol a ddefnyddiwyd.

**Argymhelliad 4:  Gwella presenoldeb a phrydlondeb pob disgybl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol bellach yn defnyddio'r codau cofnodi cywir ac mae'n olrhain presenoldeb disgyblion yn fwy effeithiol.

Fel rhan o drefniant pontio byrdymor, mae mwyafrif y disgyblion yn cael addysg amser llawn.

Mae disgyblion a rhieni yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a chaiff presenoldeb wythnosol unigol ei gyflwyno'n amlwg ar fyrddau arddangos yn yr ysgol.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae presenoldeb cyffredinol disgyblion wedi gwella o ryw 50% i 72%.  Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae presenoldeb yn rhy isel o hyd.

**Argymhelliad 5:  Sicrhau bod yr holl bolisïau a dogfennau yn gyfredol ac yn adlewyrchu gwaith yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i adolygu ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i dogfennau er mwyn adlewyrchu gwaith yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau hyn yn briodol erbyn hyn.  Maent yn rhoi fframwaith clir sy'n llywio gwaith yr ysgol ac mae staff yn gyfarwydd â chynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae angen iddynt eu dilyn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol: sicrhau bod y perchennog wedi gwneud cais am dystysgrif datgelu a gwahardd briodol a bod y cais wedi'i gyd-lofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Rhan V Deddf yr Heddlu 1997 [4(a)(a)]

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Uned Addysg Marlowe St David's |
| **Rhif yr ysgol** | 6686014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 12/07/2017 |
| **Perchennog** | Steve Miller |
| **Staff** | Un pennaeth, un athro arweiniol, 3 athro, 1 hyfforddwr, 3 chynorthwyydd cymorth dysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 12 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 08/11/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Huw Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |